

Arolygiad o Wasanaeth Iechyd Meddwl Annibynnol (Dirybudd)

Ysbyty Llanarth Court

Priory Healthcare

Dyddiad yr arolygiad: 21 - 24 Mai
2018

Dyddiad cyhoeddi: 24 Awst 2018

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu drwy

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: hiw@wales.gsi.gov.uk
Ffacs: 0300 062 8387
Gwefan: www.agic.org.uk

Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	5
2.	Crynodeb o'n harolygiad	6
3.	Yr hyn a ganfuom.....	8
	Ansawdd profiad y claf	10
	Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol	21
	Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth.....	33
4.	Beth nesaf?	38
5.	Sut rydym yn arolygu gwasanaethau iechyd meddwl annibynnol	40
	Atodiad A – Crynodeb o bryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad ...	41
	Atodiad B – Cynllun Gwella	42

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwirio bod pobl yng Nghymru'n derbyn gofal da.

Ein gwerthoedd

- Canolbwyntio ar y claf: mae profiadau cleifion, defnyddwyr gwasanaeth a'r cyhoedd yn ganolog i'r hyn rydym yn ei wneud
- Gonestrwydd: rydym yn agored ac yn onest yn y ffordd rydym yn gweithredu
- Annibynnol: rydym yn gweithredu ac yn gwneud dyfarniadau gwrthrychol yn seiliedig ar yr hyn yr ydym yn ei weld
- Cydweithredu: rydym yn meithrin partneriaethau effeithiol yn fewnol ac yn allanol
- Proffesiynol: rydym yn gweithredu'n effeithlon, yn effeithiol ac yn gyfatebol.

Ein blaenoriaethau

Ein nod trwy ein gwaith yw:

Rhoi sicrwydd:

Rhoi barn annibynnol ar ansawdd y gofal.

Hybu gwelliant:

Annog gwelliannau trwy adrodd a rhannu arferion da.

Dylanwadu ar bolisi a safonau:

Defnyddio'r hyn a welwn i ddylanwadu ar bolisiâu, safonau ac arferion.

1. Yr hyn a wnaethom

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad iechyd meddwl annibynnol dirybudd o Ysbyty Llanarth Court fin nos 21 Mai 2018. Ymwelwyd â'r safleoedd a'r wardiau canlynol yn ystod yr arolygiad hwn:

- Awen – Ward Iechyd Meddwl Diogelwch Canolig i Fenywod
- Osbern – Ward Anabledau Dysgu Diogelwch Isel i Ddynion
- Teilo – Ward Iechyd Meddwl Diogelwch Isel i Ddynion
- Treowen - Ward Iechyd Meddwl Diogelwch Isel i Ddynion
- Howell - Ward Iechyd Meddwl Diogelwch Canolig i Ddynion
- Iddon - Ward Iechyd Meddwl Diogelwch Canolig i Ddynion
- Byngalo Woodlands – Ward Iechyd Meddwl Adsefydlu Agored i Ddynion

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys dau arolygydd AGIC, tri adolygydd cymheiriaid clinigol (yr oedd un ohonynt yn adolygydd Deddf Iechyd Meddwl enwebedig) ac un aelod o staff fel adolygydd lleyg. Arweiniwyd yr arolygiad gan reolwr arolygu AGIC.

Adolygwyd dogfennau ar gyfer cleifion a gedwir o dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 gennym yn ystod yr arolygiad hwn, er mwyn asesu cydymffurfiaid â'r Ddeddf.

Archwiliodd AGIC sut yr oedd y gwasanaeth yn cydymffurfio â Deddf Safonau Gofal 2000 a gofynion Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011 ac yn bodloni'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Gofal Iechyd Annibynnol yng Nghymru. Pan fo'n briodol, mae AGIC hefyd yn ystyried sut y mae gwasanaethau yn cydymffurfio â'r Ddeddf Iechyd Meddwl (1983), y Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) (2010), y Ddeddf Galluedd Meddyliol (2005) a'r Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid.

Ceir manylion pellach am y modd yr ydym yn cynnal arolygiadau o wasanaethau iechyd meddwl annibynnol yn Adran 5 ac ar ein gwefan.

2. Crynodeb o'n harolygiad

Canfuwyd tystiolaeth gennym yn gyffredinol bod y gwasanaeth yn darparu gofal diogel ac effeithiol. Roedd pwyslais ar ofal lleiaf cyfyngol o gynorthwyo gwellhad ac i gynorthwyo'r cleifion i gynnal a datblygu sgiliau.

Mae angen gwelliannau o ran cyflawniad y darparwr cofrestredig o gyfrifoldebau statudol y Ddeddf Iechyd Meddwl.

Canfuom fod y gwasanaeth yn gwneud y canlynol yn dda:

- Roedd y staff yn rhyngweithio gyda'r cleifion gyda pharch
- Yn darparu amrywiaeth dda iawn o weithgareddau a therapïau i'r cleifion yn yr ysbyty ac yn y gymuned
- Yn rhoi pwyslais ar ofal lleiaf cyfyngol i gynorthwyo gwellhad ac yn cynorthwyo'r cleifion i gynnal a datblygu sgiliau
- Roedd Cynlluniau Gofal a Thriniaeth wedi eu cwblhau yn adlewyrchu meysydd Mesur Cymru, wedi eu hysgrifennu'n gynhwysfawr ac wedi eu hadolygu'n rheolaidd
- Yn sicrhau bod trefniadau llywodraethu ar waith i ddarparu gofal diogel ac effeithiol
- Cydymffuriad uchel o ran hyfforddiant gorfodol, goruchwyliaeth a gwerthusiadau

Gwnaethom argymhell y gallai'r gwasanaeth wella'r canlynol:

- Cyflawni ei gyfrifoldebau statudol o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl
- Cynnal a chadw'r ysbyty y tu mewn a'r tu allan
- Trefn wardiau sydd ar ddwy lefel

Nodwyd achosion o ddiffyg cydymffuriad â'r rheoliadau gennym yn ystod yr arolygiad hwn, yng nghyswllt cyflawni cyfrifoldebau statudol o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl. Ceir rhagor o fanylion yn Atodiad B. Er nad yw hyn wedi arwain at gyflwyno hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio, disgwylir i'r darparwr cofrestredig

gymryd camau ystyrlon i fynd i'r afael â'r materion hyn, gan y gallai methiant i wneud hynny arwain at ddiffyg cydymffurfiad â rheoliadau.

3. Yr hyn a ganfuom

Cefndir y gwasanaeth

Mae Ysbyty Llanarth Court wedi ei gofrestru i ddarparu gwasanaeth iechyd meddwl annibynnol yn Llanarth, Rhaglan, y Fenni, Sir Fynwy NP15 2YD.

Ceir saith ward a byngalo adsefydlu agored yn yr ysbyty:

- Awen – Gwasanaeth diogelwch canolig ar gyfer uchafswm o 16 (un ar bymtheg) o oedolion benywaidd rhwng 18 (deunaw) a 65 (chwe deg pump) oed sydd â diagnosis o salwch meddwl neu ag anhwylder personoliaeth y gellir ei drin neu gyfuniad o'r ddau
- Deri – Gwasanaeth diogelwch isel i ddarparu asesiadau ar gyfer uchafswm o 11 (un ar ddeg) o oedolion gwrywaidd dros 18 (deunaw) oed
- Osbern – Gwasanaeth diogelwch isel i ddarparu asesiadau, triniaeth ac adsefydliad i uchafswm o 11 (un ar ddeg) o oedolion gwrywaidd dros 18 (deunaw) oed sy'n dioddef o anhwylder meddwl
- Teilo – Gwasanaeth diogelwch isel i ddarparu adsefydliad i uchafswm o 20 (ugain) o oedolion gwrywaidd dros 18 (deunaw) sydd angen adsefydliad ar gyfer anhwylder meddwl
- Treowen – Gwasanaeth diogelwch isel i ddarparu adsefydliad i uchafswm o 19 (pedwar ar bymtheg) o oedolion gwrywaidd dros 18 (deunaw) oed sydd angen adsefydliad ar gyfer anhwylder meddwl
- Howell – Gwasanaeth diogelwch canolig i ddarparu asesiadau, triniaeth ac adsefydliad byrdymor i uchafswm o 17 (dau ar bymtheg) o oedolion gwrywaidd dros 18 (deunaw) oed sy'n dioddef ag anhwylder meddwl
- Iddon – Gwasanaeth diogelwch canolig i ddarparu asesiadau ac adsefydliad byrdymor i uchafswm o 17 (dau ar bymtheg) o oedolion gwrywaidd dros 18 (deunaw) oed sy'n dioddef ag anhwylder meddwl
- Byngalo Woodlands – Gwasanaeth agored i ddarparu adsefydliad i uchafswm o 4 (pedwar) o oedolion gwrywaidd dros 18 (deunaw) oed sy'n dioddef ag anhwylder meddwl

Cofrestrwyd yr ysbyty gyntaf ym mis Rhagfyr 1992. Roedd Ward Deri ar gau ar adeg yr arolygiad.

Mae'r ysbyty yn cyflogi tîm staff o Gyfarwyddwr Ysbyty, Cyfarwyddwr Gwasanaeth Clinigol, Cyfarwyddwr Meddygol a thimau amlddisgyblaeth ar y wardiau, gan gynnwys rheolwr ward, dwy brif nyrs, therapydd galwedigaethol a gweithiwr cymorth therapi. Roedd gan dimau'r wardiau gymorth gan glinigwyr sy'n gyfrifol am yr ysbyty, seicolegwyr, gweithwyr cymdeithasol, therapyddion chwaraeon a thiwtor oedolion.

Mae'r ysbyty yn cyflogi Rheolwr Cymorth Gwasanaeth a thîm o weithwyr cynnal a chadw, staff arlwyo a staff domestig. Cefnogir gweithrediad yr ysbyty gan dîm o staff gweinyddol.

Cefnogir yr ysbyty gan strwythurau rheoli a sefydliadol The Priory Group.

Ansawdd profiad y claf

Gwnaethom siarad â chleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr (pan fo'n briodol) er mwyn sicrhau bod safbwynt y claf yn ganolog i'n dull o arolygu.

Gwelsom fod staff y wardiau, uwch reolwyr a staff cynorthwyol yn rhyngweithio ac yn ymgysylltu â'r cleifion yn briodol ac yn trin y cleifion gydag urddas a pharch.

Roedd yr ysbyty yn cynnig cyfleoedd hybu, diogelu a gwella iechyd a oedd yn cael eu cefnogi gan amrywiaeth ragorol o gyfleusterau ysbyty. Roedd y rhain yn cynnig rhaglenni integredig ac amrywiaeth gynhwysfawr o weithgareddau i'r cleifion a oedd yn eu cynorthwyo i gynnal a datblygu sgiliau i wella profiad y claf yn yr ysbyty ac ar ôl ei ryddhau.

Fel y nodwyd yn ein harolygiad blaenorol, dylai'r darparwr cofrestredig adolygu trefn y wardiau ar ddwy lefel i sicrhau bod holl amgylcheddau ward yr ysbyty yn parhau i adlewyrchu safonau'r dyfodol o dan ddarpariaeth cleifion mewnol, gyda phwyslais penodol ar breifatrwydd ac urddas cleifion.

Hybu, diogelu a gwella iechyd

Roedd amrywiaeth o wybodaeth a mentrau hybu, diogelu a gwella iechyd ar gael i'r cleifion yn Llanarth Court a oedd yn cynorthwyo i gynnal a gwella llesiant y cleifion.

Roedd swyddogaeth nyrs practis yn Llanarth Court a oedd yn cael ei chyflawni gan aelod o staff a oedd yn nyrs gyffredinol gofrestrdig. Roedd y nyrs practis hefyd yn cael ei chynorthwyo gan gynorthwydd a phresenoldeb rheolaidd meddyg teulu yn yr ysbyty. Roedd y cleifion hefyd yn gallu cael mynediad at wasanaethau deintyddol a gweithwyr iechyd corfforol proffesiynol eraill yn ôl y gofyn. Roedd cofnodion y cleifion yn dangos asesiadau a monitro corfforol manwl a phriodol.

Ceir amrywiaeth eang o gyfleusterau wedi eu cynnal a'u cadw'n dda yn Llanarth Court, i gefnogi'r ddarpariaeth o therapïau a gweithgareddau. Roedd

gan bob ward therapydd galwedigaethol amser llawn dynodedig a gweithiwr cymorth therapi.

Roedd pob claf a dderbyniwyd i'r ysbyty yn cael ei asesu gan therapydd galwedigaethol. Yn dilyn yr asesiad, roedd amserlen unigol yn cael ei darparu i'r cleifion a oedd yn cynnwys gwahanol weithgareddau therapiwtig yn ogystal â gweithgareddau ar y ward. Roedd amserlenni gweithgareddau cleifion unigol yn cysylltu ag amserlenni cyfleusterau'r ysbyty ac roedd y rhain yn cael eu hadolygu ac yna eu newid bob 12 wythnos.

Gwelsom fod y cleifion ar y wardiau yn cymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau trwy gydol yr arolygiad. Roedd y rhain yn cynnwys celf a chrefft, gemau bwrdd, gemau cyfrifiadur, darllen llyfrau a phapurau newydd, gwneud modelau, chwarae cardiau a gwyllo'r teledu.

Gallai cleifion ag absenoldeb o'u wardiau hefyd gael mynediad at erddi helaeth yr ysbyty i fynd am dro ac mae nifer o gleifion yn pysgota yn y llyn yn y gerddi yn rheolaidd.

Roedd digonedd o offer yn y man gweithgareddau y cyfeirir ato fel y "Bloc Stabl" ac roedd campfa yno a oedd ar agor bob dydd. Roedd pwll nofio a neuadd chwaraeon fawr ar gyfer gweithgareddau fel pêl-droed 5 bob ochr, pêl-fasged a badminton yn yr ardal hon. Roedd yn gadarnhaol nodi bod y peiriant pwysau yng nghampfa'r ysbyty nad oedd yn gweithio wedi cael ei ddisodli ar ôl ein harolygiad y llynedd.

Roedd campfa ar ward Awen hefyd a oedd yn cynnig man i gleifion benywaidd lle gallent wneud ymarfer corff oddi wrth y cleifion gwrywaidd yn yr ysbyty os oeddent yn dymuno. Roedd sesiynau nofio menywod yn unig ar gael hefyd.

Roedd dau therapydd chwaraeon yn yr ysbyty a oedd yn gweithio gyda'r cleifion ar sail unigol neu grŵp. Roedd rhai aelodau staff wedi yn achubwyr bywydau cymwysedig fel y gallent ddarparu'r cymorth gofynnol ar gyfer pwll nofio'r ysbyty.

Roedd ystafell celf a chrefft yn y Bloc Stabl hefyd, a ddefnyddiwyd gan y tîm therapi galwedigaethol, a chanolfan addysgol a hwyluswyd gan diwtor llawn amser. Roedd y tiwtor a rheolwr therapi galwedigaethol yn arwain y rhaglen

'Coleg Gwella' lle'r oedd y cleifion yn dysgu amrywiaeth eang o sgiliau fel sgiliau cyfrifiadur, rhifedd a sgiliau iaith. Roedd y Coleg Gwella yn defnyddio'r cyfleoedd i gleifion sydd ar gael drwy Rwydwaith y Coleg Agored¹.

Roedd y Coleg Gwella yn rhan integredig o ofal cleifion a byddai'r gweithgareddau a'r cyfleoedd a oedd ar gael o fudd i'r cleifion ar ôl eu rhyddhau. Roedd y rhaglen Coleg Gwella yn cynnwys sgiliau cyflogaeth a oedd yn cynnwys hyfforddiant cyfweld a sut i redeg busnes bach gyda'r cyfle i weithio yn y caffï ar y safle. Byddai'n ofynnol i'r cleifion gwblhau cyrsiau i fod â'r sgiliau i weithio yn y caffï, a oedd yn cynnwys sgiliau rhifedd a chymhwyster hylendid bwyd lefel 2. Roedd cyrsiau eraill yn cynnwys Deall Diogelwch ar y Rhyngwrdd a sefydlu cyfrifon siopa ar-lein, ynghyd â chynnig cyrsiau i'r cleifion ar Ddeall Budd-daliadau, Sgiliau Cyllidebu a Chyngor ar Ddyled.

Yn rhan o'r adolygiad parhaus o'r ddarpariaeth addysg yn yr ysbyty, canfasiwyd y cleifion ar ba addysg a sgiliau yr hoffent gymryd rhan ynddynt. Byddai'r tiwtor a'r tîm therapi galwedigaethol yn ystyried safbwyntiau'r cleifion ac yn ymchwilio i ddarparu'r cyrsiau hyn naill ai ar y safle neu yn y gymuned.

Roedd ceginau therapi galwedigaethol ar wardiau Awen, Teilo a Treowen ac roedd dwy gegin therapi galwedigaethol yn y Bloc Stabl ar gyfer Howell, Iddon, Osbern a Deri. Roedd digonedd o offer yn y ceginau therapi galwedigaethol i'r cleifion ymgymryd â sesiynau coginio. Gwelsom nifer o gleifion yn cymryd rhan mewn sesiynau coginio a dywedodd llawer o gleifion eraill eu bod yn coginio'n rheolaidd. Yn rhan o'r sesiynau coginio therapi galwedigaethol, yn gysylltiedig â'r ddarpariaeth o addysg yn yr ysbyty, roedd y cleifion yn cael eu haddysgu am faetheg, bwyta'n iach a chogion ar gyllideb.

Roedd y cyfleusterau a oedd ar gael y tu allan i'r wardiau hefyd yn cynnwys Canolfan Garddwriaeth a Chreffft a oedd yn hwyluso gwahanol weithdai ar gyfer y cleifion fel gwaith coed a mynediad at dai gwydr a gerddi mawr ar gyfer gweithgareddau garddwriaeth. Roedd cleifion a oedd yn gweithio yn y gweithdai wedi adeiladu siop goffi fawr yn yr ardal hon y gallai'r cleifion ei defnyddio.

¹ Mae Rhwydwaith y Coleg Agored yn cydnabod dysgu anffurfiol a gyflawnwyd gan oedolion i ddatblygu a dyfarnu cymwysterau a gydnabyddir yn genedlaethol.

Roedd gan yr ysbyty glwb cymdeithasol hefyd, a oedd wedi ei addurno'n braf ac yn cynnig jiwcbocs, byrddau tenis bwrdd a phŵl, bwrdd dartiau, hoci aer a thafunydd ar gyfer ffilmiau. Roedd hefyd yn cynnig llyfrgell a siop i'r cleifion a oedd yn cael eu rhedeg gan gleifion, wedi eu cynorthwyo gan y tîm therapi galwedigaethol yn rhan o gyfleoedd gwaith yr ysbyty.

Roedd gan bob un o'r saith ward ei gerbyd dynodedig ei hun fel y gallai'r cleifion gael mynediad at y gymuned pan ganiatawyd absenoldeb awdurdodedig iddynt. Byddai un o'r cerbydau ward yn cael ei neilltuo fel cerbyd brys yr ysbyty ar un diwrnod yr wythnos rhag ofn bod angen i glaf adael yr ysbyty yn ddirybudd, h.y. apwyntiad meddygol brys. Ar y diwrnod nad oedd gan ward ei cherbyd, byddai staff y ward yn hwyluso grŵp trafndiaeth gyhoeddus fel y gallai'r cleifion fanteisio ar y cyfle hwn yn rhan o'u hadsefydliad.

Roedd y staff o wahanol ddisgyblaethau y siaradwyd â nhw yn gadarnhaol iawn am y rheolaeth o weithgareddau a therapi ac yn teimlo bod yr ysbyty a'r wardiau yn gallu hwyluso amrywiaeth eang o weithgareddau ar gyfer y cleifion.

Roedd y cleifion yn gadarnhaol am y cyfleusterau a'r gweithgareddau sydd ar gael yn yr ysbyty. Fodd bynnag, fel y nodwyd gennym yn ystod ein harolygiad blaenorol, nid oedd unrhyw ddarpariaeth ryngrwyd ar y wardiau i'r cleifion o hyd. Roedd hyn oherwydd y seilwaith TG yn yr ysbyty ac roedd yn dal i gael ei adolygu gan y darparwr cofrestredig fel y byddai'r cleifion yn gallu cael mynediad at y rhyngrwyd wedi ei asesu ar sail risg unigol. Fel y nodwyd uchod, roedd y cleifion yn gallu cael mynediad at y rhyngrwyd yn y ganolfan addysg.

Yr hyn y mae angen ei wella

Dylai'r darparwr cofrestredig sicrhau'r ddarpariaeth o fynediad at y rhyngrwyd ar y wardiau yn seiliedig ar asesiad risg ar gyfer cleifion unigol.

Urddas a pharch

Gwelsom drwy'r ysbyty cyfan fod staff y wardiau, yr uwch reolwyr a'r staff cynorthwyol yn rhyngweithio ac yn ymgysylltu â'r cleifion yn briodol ac yn trin y cleifion gydag urddas a pharch. Roedd y staff i ni siarad â nhw yn angerddol am eu swyddi ac yn frwdfrydig am sut yr oeddent yn cynorthwyo ac yn gofalu am y cleifion.

Clywsom y staff yn siarad gyda'r cleifion gan ddefnyddio lleisiau digynnwrf trwy gydol ein harolygiad. Gwelsom y staff yn dangos parch tuag at y cleifion gan gynnwys rhyngweithio prydlon a phriodol mewn ymdrech i atal ymddygiad

cleifion rhag gwaethygu. Pan roedd y cleifion yn mynd at y staff roeddent yn cael eu cyfarch ag agweddau gofalgar moesgar ac ymatebol.

Roedd hefyd yn gadarnhaol nodi bod y staff wedi cofnodi a deall dymuniadau cleifion unigol ar gyfer ymyriadau i reoli eu hymddygiadau heriol. Fe'n hysbyswyd drwy ein sgysiau gyda'r cleifion a'r staff bod y dymuniadau estynedig hyn yn cael eu dilyn pan fo'n bosibl, a oedd yn helpu i gynnal urddas a llesiant y cleifion yn ystod sefyllfaoedd anodd.

Roedd tystiolaeth eglur ar draws yr ysbyty bod arferion staff a pholisïau yn dilyn yr Arferion Lleiaf Cyfyngol o ofal. Roedd hyn yn cyfrannu at gynnal urddas cleifion a gwella gofal unigoledd yn Llanarth Court. Roedd cyfarfodydd arfer lleiaf cyfyngol ward ac ysbyty rheolaidd a oedd yn cynnig y cyfle i adolygu a thrafod arferion a fyddai'n sicrhau bod y cyfyngiadau ar gleifion yn Llanarth Court cyn lleied â phosibl yn seiliedig ar ymchwil a risgiau.

Roedd Datganiad o Ddiben y darparwr cofrestredig hefyd yn disgrifio sut y byddai staff yr ysbyty yn cynorthwyo'r cleifion mewn ffyrdd a fyddai'n cynnal eu preifatrwydd a'u hurddas.

Roedd gan bob claf ei ystafell wely ei hun. Roedd y cleifion yn gallu cloi drysau eu hystafelloedd gwely a gallai'r staff eu hagor os oedd angen. Roedd gan gleifion ar Awen, Teilo a Treowen ystafelloedd gwely â chyfleusterau en-suite yn cynnwys toiled, sinc a chawod. Roedd gan gleifion ar Iddon, Howell ac Osbern, ynghyd â Deri pan fo ar agor, ystafelloedd gwely â sinc ond roeddent yn rhannu toiledau a chawodydd.

Fel y nodwyd yn dilyn ein harolygiad blaenorol, er bod y diffyg cyfleusterau en-suite ar bedair o'r wardiau yn lleihau'r preifatrwydd a gynigir i'r cleifion, nid yw strwythur y wardiau yn caniatáu ailwampio rhwydd a chynnwys cyfleusterau en-suite. Ers hynny, mae'r darparwr cofrestredig wedi rhoi rhywfaint o ystyriaeth i ddatblygiad hirdymor y gwasanaeth yn Llanarth Court i gael gwared ar amrywiadau o ran cyfleusterau ar draws gwahanol wardiau. Gofynnir i'r darparwr cofrestredig rannu'r wybodaeth ddiweddaraf am y datblygiadau gydag AGIC i sicrhau y bydd yr holl amgylcheddau ward yn parhau i adlewyrchu safonau'r ddarpariaeth cleifion mewnol yn y dyfodol.

Gwelsom nifer o ystafelloedd gwely ac roedd yn amlwg bod y cleifion yn gallu personoli eu hystafelloedd. Roedd gan y cleifion ddigon o le storio ar gyfer eu heiddo yn eu hystafelloedd a oedd yn cynnwys cwpwrdd y gellid ei gloi a sêff. Roedd unrhyw eitemau yr ystyriwyd eu bod yn berygl i ddiogelwch cleifion, fel raseli, erosolau, ac ati yn cael eu storio'n ddiogel ac yn drefnus ar bob un o'r wardiau a gallai'r cleifion ofyn amdanynt yn ôl yr angen.

Roedd paneli gwyllo yn nrysau'r ystafelloedd gwely fel y gallai'r staff arsylwi heb agor y drws a tharfu ar y claf o bosibl. Roedd yn gadarnhaol nodi bod paneli gwyllo wedi eu cau ac yn cael eu hagor i gynnal arsylwadau ac yna'n cael eu cau unwaith eto. Roedd hyn yn helpu i gynnal preifatrwydd ac urddas y cleifion.

Nodwyd gennym yn ystod ein harolygiad blaenorol bod rhai cleifion wedi rhoi lliain dros ben y tu allan i'r drysau i atal goleuadau coridor y ward rhag llifo i mewn i'r ystafelloedd drwy'r paneli arsylwi yn ystod y nos gan darfu ar eu cwsgr. Wedi hyn, roedd y darparwr cofrestredig wedi gosod llenni dros y paneli arsylwi i atal hyn rhag digwydd. Fodd bynnag, yn ystod noson gyntaf ein harolygiad, gwelsom ar Treowen fod tri o gleifion wedi rhoi lliainiau dros ffenestri arsylwi eu hystafelloedd gwely. Mewn un achos, roedd y lliain yn atal unrhyw arsylwi i mewn i'r ystafell wely gan ei fod yn gorchuddio'r panel arsylwi ar y tu mewn i ddrws yr ystafell wely i rwystro'r olwg i mewn. Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau nad yw'r arfer hwn yn parhau gan ei fod yn atal rhwyddineb arsylwi'r staff ac yn cyfaddawdu diogelwch y cleifion.

Roedd ystafelloedd priodol ar bob ward i'r cleifion gyfarfod â pherthnasau, staff y ward a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol eraill yn breifat. Roedd ystafell ymweld i blant hefyd, mewn man nad oedd ar y ward, a oedd ar gael i'r cleifion gyfarfod ag aelodau teulu iau. Pan nad oedd cleifion yn gallu gadael y ward, roedd y staff yn gallu trefnu i'r cleifion siarad gyda pherthnasau ifanc ar Skype. Roedd y cyfleuster hwn hefyd ar gael i berthnasau eraill a ffrindiau nad oeddent yn gallu dod i'r ysbyty.

Roedd trefniadau priodol ar gyfer mynediad at ffôn ar bob un o'r wardiau fel bod y cleifion yn gallu gwneud a derbyn galwadau yn breifat. Yn dibynnu ar asesiad risg unigol, roedd y cleifion yn gallu cael mynediad at eu ffôn symudol. Roedd y cleifion yn llofnodi contract ffôn symudol gyda'r darparwr cofrestredig i gytuno i'r telerau defnydd i gadarnhau na fyddai'r ffôn symudol yn cael ei gamddefnyddio ac yn caniatáu i'r staff fonitro defnydd o ffonau symudol a'u cynnwys.

Fel y nodwyd mewn arolygiadau blaenorol, roedd Deri, Iddon, Howell ac Osbern wedi eu rhannu dros ddau lawr, gyda'r prif fannau cymunedol i lawr y grisiau a'r ystafelloedd gwely a manau cymunedol a chyfleusterau eraill i fyny'r grisiau ar bob un o'r wardiau. Oherwydd trefn y wardiau, roedd gan gleifion ar y wardiau hyn fynediad cyfyngedig at y manau i fyny'r grisiau neu i lawr y grisiau ac felly eu hystafelloedd gwely. Rhoddodd y staff y rheswm am y trefniadau, gan esbonio'r anawsterau a fyddai'n cael eu peri i gynnal diogelwch y cleifion pe baent yn defnyddio dau lawr ward.

Roedd pob ward wedi gwneud trefniadau gyda'r cleifion o ran yr amseroedd pan fyddai'r cleifion i lawr y grisiau neu fyny'r grisiau. Fodd bynnag, yn unol â'n

harolygiadau blaenorol, mynegodd y cleifion eu hanfodlonrwydd â chael amseroedd dynodedig ar gyfer mynediad at eu hystafelloedd gwely a'r llawr daear gan ei gwneud yn ofynnol felly iddynt fynd i fyny'r grisiau, i'w hystafelloedd gwely yn bennaf, yn gynnwys fin nos.

Cododd rhai cleifion bryderon hefyd bod y wardiau ar ddwy lefel yn teimlo'n fwy cyfyngedig na'r wardiau a oedd ar un lefel gan fod lle cyfyngedig lle gallent fod oddi wrth y cleifion eraill. Dywedodd y cleifion y gallai hyn eu gwneud nhw deimlo'n anniddig pan roedd y ward yn gythryblus neu o dan fygythiad pan roedd cleifion a fyddai'n ceisio ffurfio grŵp goruchafol. Roedd hwn yn bryder cyffredin ymhlith cleifion ar Howell ond nid oedd wedi ei gyfyngu i'r ward hon. Dywedodd y staff a'r cleifion bod hwn yn ffenomen gymharol ddiweddar yn dilyn newidiadau i'r grŵp cleifion ar Howell. Mae'n bwysig bod y darparwr cofrestredig yn sicrhau bod trefniadau ar waith i atal cleifion rhag teimlo'n annioel neu o dan fygythiad gan grwpiau eraill o gleifion.

Yn ystod trafodaethau gyda'r staff, disgrifiwyd dull pragmatig ganddynt o hwyluso ceisiadau i gael mynediad at ystafelloedd gwely y tu allan i'r amseroedd dynodedig ac y byddent yn ceisio bodloni'r rhain pan fo'n bosibl. Roedd gan y staff bryderon hefyd y byddai rhai cleifion yn gwrthod gadael eu hystafelloedd gwely weithiau ac felly'n byddai'n rhaid rhannu'r staff rhwng dwy lawr a oedd yn cael effaith negyddol ar eu gallu i ofalu am gleifion a darparu gweithgareddau ystyrllon, ar y ward neu wedi eu hebrwng yn yr ysbyty neu'r gymuned. Yn ystod ein sgysiau gyda'r cleifion a'r staff, dywedasant y gallai fod yn sefyllfa o straen ac y gallai fod awyrgylch annymunol ar y wardiau ar yr adegau hyn.

Roedd cael amseroedd penodedig ar gyfer mynediad at ystafelloedd gwely, neu ei gwneud yn ofynnol i gleifion fynd i fyny'r grisiau ar adegau penodol, yn gyfyngol ar y cleifion. Fodd bynnag, roedd lolfeydd cymunedol ar bob un o'r wardiau i'r cleifion gymdeithasu yn ystod y cyfnodau hyn ac roedd y cleifion yn gallu cael amrywiaeth o eitemau yn eu hystafelloedd, fel llyfrau, teledu, peiriannau gemau, ac ati. Fel y nodwyd uchod, dylai'r darparwr cofrestredig ystyried yr amgylchedd gofal ar y wardiau hyn i sicrhau y bydd yr amgylchedd yn parhau i adlewyrchu safonau'r ddarpariaeth i gleifion mewnol yn y dyfodol.

Ac eithrio Woodlands, roedd Ystafell Gofal Dwys ar bob ward yn Llanarth Court, a dwy ar Awen. Gallai'r manau hyn gael eu monitro gan y staff trwy deledu cylch cyfyng, a cheir posibilrwydd y gallai hyn effeithio ar breifatrwydd ac urddas cleifion yn y manau hyn. Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod trefniadau llywodraethu eglur ynghylch y defnydd o deledu cylch cyfyng; ceir manylion am hyn yn ddiweddarach yn yr adroddiad.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau nad yw'r cleifion yn rhoi llinellau dros baneli arsylwi drysau ystafelloedd gwely.

Dylai'r darparwr cofrestredig adolygu trefn pedair ward Deri, Iddon, Howell ac Osbern yn y dyfodol i sicrhau y bydd amgylcheddau'r wardiau yn parhau i adlewyrchu safonau darpariaeth cleifion mewnol y dyfodol. Hefyd, cael gwared ar y gofyniad i gleifion gael eu lleoli ar lefelau penodol o'r wardiau yn ystod y dydd.

Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig archwilio pryderon y cleifion a'r staff i sicrhau nad yw cleifion yn teimlo'n anniofel neu o dan fygythiad gan grwpiau eraill o gleifion.

Gwybodaeth a chydysniad cleifion

Roedd amrywiaeth o wybodaeth gyfredol ar gael yn yr ysbyty. Roedd hysbysfyrddau ar y wardiau yn cynnig gwybodaeth fanwl a pherthnasol i'r cleifion. Fodd bynnag, yn unol â'n harolygiad blaenorol, gwelsom rywfaint o anghysondeb o ran y wybodaeth a oedd wedi ei harddangos ar hysbysfyrddau ac roedd rhai yn anniben ac angen sylw i sicrhau bod y wybodaeth yn cael ei harddangos yn eglur ac yn gyfredol.

Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei harddangos ar bob ward sy'n cynnwys;

- gwybodaeth am y Ddeddf Iechyd Meddwl a'r ddarpariaeth o eiriolaeth,
- sut i wneud cwyn a
- gwybodaeth am Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru.

Roedd eiriolwr ar gael yn yr ysbyty yn y gorffennol y gallai'r cleifion gysylltu ag ef neu y gallent gael eu hatgyfeirio ato gan y staff; nid oedd hyn yn wir mwyach, fodd bynnag. Roedd y cleifion yn gallu cysylltu â chynrychiolydd y gwasanaeth eiriolaeth statudol dros y ffôn neu drwy drefnu apwyntiad i'r cynrychiolydd ymweld â'r claf yn yr ysbyty. Roedd yn amlwg o'n sgysiau gyda'r cleifion a'r staff nad oedd pawb yn ymwybodol o'r newid hwn i'r ddarpariaeth eirioli.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod gwybodaeth wedi ei harddangos ar bob ward sy'n cynnwys gwybodaeth statudol, gwybodaeth am y Ddeddf Iechyd Meddwl a'r ddarpariaeth o eiriolaeth, sut i wneud cwyn a gwybodaeth am Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru.

Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod y cleifion a'r staff yn ymwybodol o'r newidiadau i'r ddarpariaeth eirioli yn Llanarth Court.

Cyfathrebu'n effeithiol

Roedd yn amlwg o'n harsylwadau o ryngweithio rhwng y staff a'r cleifion bod y staff yn sicrhau eu bod yn cyfathrebu'n briodol ac yn effeithiol gyda'r cleifion. Roedd y staff yn cymryd amser i gynnal trafodaethau gan ddefnyddio geiriau ac iaith a oedd yn briodol i'r claf unigol. Pan roedd cleifion dal i fod yn ansicr, neu fod yr hyn yr oeddent yn ceisio ei gyfathrebu yn cael ei gamddeall, byddai'r staff yn ceisio egluro yn amyneddgar yr hyn yr oeddent wedi ei ddweud.

Roedd cyfarfodydd cynllunio beunyddiol ar bob ward bob bore i drefnu'r gweithgareddau, yn yr ysbyty ac yn y gymuned, ynghyd â gweithgareddau a chyfarfodydd eraill, fel cyfarfodydd cynllunio gofal, tribiwnlysoedd, apwyntiadau meddygol, ac ati.

Roedd cyfarfodydd ward wythnosol lle'r oedd cyfle i'r cleifion gynnig adborth ar y gofal y maent yn ei dderbyn yn yr ysbyty a thrafod unrhyw ddatblygiadau neu bryderon. Gwelsom un cyfarfod cymunedol a chanfuwyd gennym ei fod yn gynhwysol ac yn gynhyrchiol i'r cleifion a'r staff. Fodd bynnag, dywedodd rhai cleifion yn yr ysbyty nad oeddent bob amser yn teimlo y byddent yn derbyn adborth ar yr hyn a drafodwyd yn y cyfarfodydd neu'r camau a gymerwyd gan y staff i ymateb i adborth.

Ar gyfer cyfarfodydd unigol, gallai'r cleifion gael cymorth gan gyrff allanol i ddarparu cefnogaeth a chyfarwyddyd, fel cyfreithwyr neu eiriolwyr. Gyda chytundeb y cleifion, pryd bynnag y bo'n bosibl, roedd eu teuluoedd a'u gofalwyr hefyd yn cael eu cynnwys mewn rhai cyfarfodydd.

Gwelsom, ac roedd cofnodion y cleifion yn nodi, cyfranogiad cleifion unigol yn eu gwaith cynllunio ac adolygu gofal.

Yr hyn y mae angen ei wella

Dylai'r darparwr cofrestredig archwilio opsiynau ar gyfer hysbysu'r cleifion am adborth a champau gweithredu o gyfarfodydd y gymuned cleifion.

Cynllunio a darparu gofal

Roedd pwyslais eglur ar adsefydlu gyda gofal cleifion wedi'i bersonoli a oedd wedi ei ategu gan arferion lleiaf cyfyngol, o ran cynllunio gofal ac arferion ward neu ysbyty.

Roedd gan bob claf ei gynllunydd gweithgareddau wythnosol unigol a oedd yn cynnwys sesiynau unigol a grŵp, wedi eu lleoli yn yr ysbyty ac yn y gymuned (pan fo'r awdurdodiad gofynnol ar waith).

Fel y nodwyd uchod, roedd y gweithgareddau'n amrywiol ac yn canolbwyntio ar wella, naill ai yn yr ysbyty neu yn y gymuned. Roedd cyfranogiad cleifion unigol mewn gweithgareddau yn cael ei fonitro a'i archwilio. Pan roedd cleifion yn gwrthod, gwelsom y staff yn cynnig opsiynau eraill; cofnodwyd hyn yng nghofnod y claf. Roedd archwiliad rheolaidd o gyfranogiad mewn gweithgareddau a fyddai'n cyfrannu at waith cynllunio gweithgareddau tri misol.

Cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol

Roedd arferion staff wedi eu halinio â pholisïau systemau sefydledig yr ysbyty yn sicrhau bod cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau'r cleifion yn cael eu cynnal.

Roedd dogfennau cyfreithiol i gadw cleifion o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth. Fodd bynnag, mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig wneud gwelliannau o ran cymhwysiad y Ddeddf i gyflawni ei ddyletswyddau statudol o dan y Ddeddf fel y nodir yng Nghod Ymarfer Cymru ar y Ddeddf Iechyd Meddwl 2016. Nodir y rhain yn ddiweddarach yn yr adroddiad.

Ymgysylltiad ac adborth dinasyddion

Roedd cyfarfodydd cleifion rheolaidd i alluogi cleifion i gynnig adborth ar y ddarpariaeth o ofal yn yr ysbyty. Roedd gwybodaeth hefyd ar gael i hysbysu perthnasau a gofalwyr am sut i ddarparu adborth.

Roedd polisi a gweithdrefnau cwynion ar waith yn Llanarth Court. Mae'r polisi yn darparu strwythur ar gyfer ymdrin â holl gwynion cleifion am wasanaethau yn Llanarth Court.

Roedd cwynion wedi eu categoraiddio fel cwynion anffurfiol a ffurfiol. Roedd cwynion anffurfiol yn cael eu cofnodi ar bob ward mewn dogfen bapur a chwynion ffurfiol yn cael eu cofnodi ar gofnod cwynion cyfrifiadurol ar gyfer yr ysbyty cyfan.

Dangosodd sampl o gwynion anffurfiol a ffurfiol bod unigolyn annibynnol yn cael ei neilltuo i ymchwilio i'r gŵyn ac roedd camau'n cael eu cymryd yn unol â pholisi cwynion y sefydliad i sicrhau yr ymdrinnir â chwynion yn briodol yn yr ysbyty.

Roedd cofnodion hefyd yn cael eu cofnodi yng nghofnodion cleifion unigol ynghyd â chanlyniad y cwyn.

Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol

Gwnaethom ystyried i ba raddau y mae gwasanaethau'n darparu gofal o ansawdd uchel, gofal diogel a gofal dibynadwy sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Roedd dodrefn, gosodiadau a ffitiadau addas ar gyfer y grŵp cleifion yn amgylchedd yr ysbyty; fodd bynnag, roedd angen ailaddurno ac ailwampio mewn mannau drwy'r ysbyty cyfan.

Roedd prosesau ac archwiliadau sefydledig ar waith i reoli risg, iechyd a diogelwch a rheoli heintiau. Roedd hyn yn galluogi'r staff i barhau i ddarparu gofal diogel a chlinigol effeithiol.

Roedd Cynlluniau Gofal a Thriniaeth y cleifion yn adlewyrchu meysydd Mesur Cymru ac yn cael eu hadolygu'n rheolaidd.

Mae angen gwelliannau o ran cyflawni cyfrifoldebau statudol y darparwr cofrestredig o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl a bod arfer yn dilyn y canllawiau a nodir yng Nghod Ymarfer Cymru ar y Ddeddf Iechyd Meddwl.

Rheoli risg ac iechyd a diogelwch

Roedd gan Llanarth Court brosesau ar waith i reoli ac adolygu risgiau a chynnal iechyd a diogelwch yn yr ysbyty. Roedd yr ysbyty yn darparu gofal cleifion wedi'i bersonoli wedi ei ategu gan arferion lleiaf cyfyngol, o ran cynllunio gofal ac arferion ysbyty neu ward.

Roedd gweithdrefnau diogelwch ar waith ar bob ward er mwyn sicrhau bod y perygl y byddai pobl yn dod ag eitemau gwaharddedig ar y wardiau cyn lleied â phosibl. Roedd nyrs ddiogelwch ddynodedig ar bob ward yn ystod pob shift a oedd yn gyfrifol am gynnal y protocolau diogelwch ar bob ward.

Roedd rhestr o eitemau gwaharddedig wedi ei harddangos wrth fynedfeydd y wardiau ac roedd loceri diogel ar gael i storio unrhyw eitemau na ellir mynd â nhw ar y ward, h.y. ffonau symudol, tanwyr sigarêts, hylifau fflamadwy, ac ati.

Roedd pwyntiau galw nyrsys o gwmpas y wardiau ac yn ystafelloedd gwely'r cleifion fel y gallai'r cleifion alw am gymorth os oedd ei angen. Roedd y staff yn

gwisgo larymau personol y gallent eu defnyddio i alw am gymorth os oedd angen. Roedd system i larymau gael eu rhoi i staff ac ymwelwyr pan roeddent yn dod ar ward. Fodd bynnag, sylwyd anghysondebau gennym drwy'r holl wardiau yn ystod ein harolygiad ac ni ddarparwyd larymau o holl aelodau'r tîm arolygu bob amser. Dylid darparu larwm personol i'r holl ymwelwyr a staff i sicrhau eu diogelwch ar y wardiau.

Ar y cyfan, roedd yr ysbyty wedi ei gynnal a'i gadw'n dda a oedd yn cynnal diogelwch y cleifion, y staff ac ymwelwyr. Roedd yn gadarnhaol nodi bod y llawr ar Awen yn cael ei ailwampio ar adeg ein harolygiad. Fodd bynnag, ac eithrio Teilo, roedd angen ailaddurno a/neu ailwampio'r wardiau gan fod manau drwy'r rhan fwyaf o'r wardiau a oedd wedi eu marcio, eu staenio neu'n ymddangos wedi gwisgo ac yn flinedig. Hefyd, fel y nodwyd yn yr arolygiad blaenorol, roedd hen olion tâp gludiog yn nifer o rannau o'r wardiau lle'r oedd eitemau wedi cael eu gludo ar ddrysau a ffenestri. Yn anffodus, roedd hyn yn golygu bod y wardiau, mewn rhannau, yn edrych yn flêr a braidd yn anniben. Nid oedd yr holl fannau awyr agored wedi eu cynnal a'u cadw'n dda chwaith; roedd hyn yn arbennig o amlwg yn yr ardd gaeedig ar gyfer yr Ystafell Gofal Dwys ar Awen. Mae angen cynnal a chadw'r rhain yn rheolaidd i gynnig manau therapiwtig awyr agored braf i'r cleifion.

Roedd y staff yn gallu adrodd materion amgylcheddol i dîm ystadau'r ysbyty a oedd yn cadw cofnod o'r materion a gwaith gofynnol ac a gwblhawyd. Hefyd, roedd aelodau'r Uwch Dîm Rheoli yn cynnal taith gerdded wythnosol o gwmpas yr ysbyty i adolygu'r amgylchedd a sgwrsio gyda'r staff a'r cleifion.

Fe'n hysbyswyd bod tîm ystadau'r ysbyty yn ymatebol ac yn gwneud atgyfeiriadau i gontractwyr yn gyflym yn ôl y gofyn. Gwelwyd tystiolaeth o hyn o adolygu sampl o gofnodion y tîm cynnal a chadw. Gwelsom y tîm ystadau yn ymateb ac yn gwneud gwaith cynnal a chadw i drwsio problemau amgylcheddol trwy gydol yr arolygiad.

Gwelsom yn ystod yr arolygiad bod rhannau o'r ysbyty lle'r oedd eitemau neu sbwriel neu weddillion yn y bwlch rhwng ffenestri a'r amddiffynwyr ffenestri Perspex. Cadarnhaodd y darparwr cofrestredig bod gan y tîm ystadau raglen barhaus o lanhau'r manau hyn ar draws yr ysbyty; ac yn amlach yn ôl y gofyn a oedd yn atal casgliad sylweddol o weddillion.

Roedd y dodrefn, y gosodiadau a'r ffitiadau yn yr ysbyty yn briodol ar gyfer y grŵp cleifion. Roedd asesiadau risg pwyntiau rhwymynnau cyfredol ar waith. Roedd y rhain yn nodi pwyntiau rhwymynnau posibl a pha gamau oedd wedi eu cymryd i gael gwared ar y rhain neu eu rheoli.

Roedd system electronig sefydledig ar waith ar gyfer cofnodi, adolygu a monitro digwyddiadau. Roedd digwyddiadau yn cael eu cofnodi ar y system a oedd yn cynnwys enwa'r claf/cleifion a'r staff dan sylw, disgrifiad, lleoliad, amser a hyd y digwyddiad. Roedd unrhyw ddefnydd o ataliaeth wedi ei gofnodi, gan gynnwys pwy oedd yn rhan o'r digwyddiadau a lleoliadau corff pob unigolyn a oedd yn rhan o'r ataliaeth. Roedd adroddiadau ar ddigwyddiadau yn cael eu cysylltu'n awtomatig â nodiadau gofal electronig y claf unigol a oedd yn sicrhau bod y rhain yn gyfredol.

Roedd hierarchaeth ar gyfer llofnodi i gloi digwyddiadau a oedd yn sicrhau bod adroddiadau ar ddigwyddiadau yn cael eu hadolygu'n brydlon gan aelod i'r tîm clinigol sy'n gysylltiedig â gofal y claf unigol a chyflogai sy'n gyfrifol am iechyd a diogelwch yr ysbyty.

Roedd adroddiadau rheolaidd ar ddigwyddiad yn cael eu llunio a'u hadolygu yn yr ysbyty ac ar lefel sefydliadol fel y gellid adolygu a dadansoddi nifer y digwyddiadau. Gellid llunio adroddiadau ychwanegol i ystyried meysydd penodol yn ôl y gofyn. Roedd y system adrodd digwyddiadau a'r amserlenni adrodd yn sicrhau bod digwyddiadau yn cael eu cofnodi, eu hadolygu a'u monitro i gynorthwyo yn y ddarpariaeth o ofal diogel yn Llanarth Court.

Yn rhan o strategaeth yr ysbyty ar gyfer rheoli ymddygiad heriol, roedd un Ystafell Gofal Dwys ar bob un o'r wardiau, ac eithrio Woodlands, ac Awen, yr unig ward i fenywod yn unig, lle ceir dwy. Roedd cyfleusterau'r Ystafell Gofal Dwys yn cynnwys cyfleusterau toiled a chawod hunangynhwysol priodol.

Gweithrediad y staff o'r defnydd o'r Ystafell Gofal Dwys oedd y cam olaf wrth reoli ymddygiad cleifion, a gellid ei defnyddio ar gyfer Gwahanu cleifion². Os oedd risg claf yn ei wneud yn ofniad, roedd dillad a dillad gwely gwrth-rwyg yn cael eu darparu er mwyn helpu i gynnal eu hurddas tra eu bod yn derbyn gofal mewn Ystafell Gofal Dwys. Roedd gan y darparwr cofrestredig bolisi ar waith ar gyfer defnyddio'r Ystafell Gofal Dwys a Gwahanu a oedd yn nodi y gallai cleifion fod mewn Ystafell Gofal Dwys am gyfnod byr o amser (e.e. ychydig funudau) neu am gyfnodau hwy o ddiwrnodau neu wythnosau. Roedd y

² Cyfyngiad goruchwylidiedig claf mewn ystafell, a allai fod wedi ei chloi. Ei unig nod yw cyfyngu ymddygiad difrifol drwblus sy'n debygol o achosi niwed i bobl eraill.

defnydd o Ystafelloedd Gofal Dwys a gwahanu yn yr ysbyty yn cael ei gofnodi a'i fonitro.

Gwelsom dystiolaeth hefyd yn nodiadau'r cleifion a thrwy siarad â'r staff a'r cleifion, pe bai claf yn dymuno defnyddio Ystafell Gofal Dwys fel ffordd o reoli ei ymddygiad ei hun, roedd yn gallu gwneud cais i staff y ward i gael mynediad i Ystafell Gofal Dwys. Roedd hwn yn arfer ysbyty ychwanegol a oedd yn dangos bod y cleifion yn cymryd rhan yn y broses o reoli eu gofal eu hunain a bod staff yn gallu cymryd camau i gynorthwyo cleifion i reoli eu llesiant ac atal dirywiad diangen i iechyd.

Roedd teledu cylch cyfyng ar gael ar gyfer arsylwi holl rannau'r Ystafell Gofal Dwys. Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod y defnydd o deledu cylch cyfyng yn seiliedig ar risg ar glaf unigol ac ar sail digwyddiad i sicrhau bod preifatrwydd ac urddas y claf yn yr Ystafell Gofal Dwys yn cael eu cynnal gan gynnal diogelwch y claf a'r staff. Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod y penderfyniad i ddefnyddio teledu cylch cyfyng yn cael ei gofnodi'n eglur. Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig adolygu ei bolisi ar ddefnyddio teledu cylch cyfyng i sicrhau ei fod yn dilyn canllawiau Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth a nodir yn eu Cod Ymarfer ar Deledu Cylch Cyfyng 2017³.

Roedd gan yr ysbyty Gynllun Parhad Busnes ar waith a oedd yn cynnwys pethau fel tywydd garw, methiannau cyfleustodau ac achos o glefyd heintus.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau y darperir larymau personol i'r holl ymwelwyr â'r wardiau a'r holl staff i sicrhau eu diogelwch.

Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod rhaglen ailaddurno, ailwampio a chynnal a chadw'r ysbyty yn cadw'r safle mewn cyflwr da y tu mewn a'r tu

³ <https://ico.org.uk/media/for-organisations/documents/1542/cctv-code-of-practice.pdf>

Mae'r cod hefyd yn adlewyrchu'r amgylchedd rheoleiddiol ehangach. Wrth ddefnyddio, neu fwriadu defnyddio systemau gwyliadwriaeth, mae angen i lawer o sefydliadau ystyried hefyd eu rhwymedigaethau o ran Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, y Ddeddf Diogelu Rhyddidau, Deddf Hawliau Dynol 1998 a'r Cod Ymarfer ar Gamerau Gwyliadwriaeth a gyhoeddwyd o dan y Ddeddf Diogelu Rhyddidau.

allan.

Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig adolygu ei bolisi ar ddefnyddio teledu cylch cyfyng i sicrhau ei fod yn dilyn canllawiau Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth a nodir yn eu Cod Ymarfer ar Deledu Cylch Cyfyng 2017.

Atal a rheoli heintiau a dadheintio

Roedd systemau sefydledig o archwilio rheolaidd ar waith o ran rheoli heintiau. Cwblhawyd hyn gyda'r nod o nodi meysydd i'w gwella fel y gellid cymryd camau priodol yn ôl yr angen. Cadarnhaodd y staff bod amserlenni glanhau ar waith i hybu glanhau rheolaidd ac effeithiol yn yr ysbyty ac roeddent yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau o ran atal a rheoli heintiau.

Roedd cynhyrchion hylendid dwylo ar gael mewn manau perthnasol. Roedd gan y staff fynediad at Gyfarpar Diogelu Personol hefyd yn ôl y gofyn. Roedd offer glanhau wedi ei storio a'i drefnu yn briodol.

Mae'r darparwr cofrestredig yn cyflogi staff cadw tŷ penodol ar gyfer Llanarth Court. Roedd yr ystafell ymolchi, y gawod a'r toiledau cymunedol yn lân, yn daclus ac yn rhydd o annibendod. Roedd mynediad at gyfleusterau golchi a sychu dwylo yng ngheginau ac ystafelloedd ymolchi pob ward. Roedd cyfleusterau golchi dillad wedi eu cynnal a'u cadw'n dda ac roedd ystafelloedd golchi dillad a chpyrddau dillad wedi eu trefnu'n dda ar draws y wardiau.

Roedd yr ystadegau hyfforddi a ddarparwyd gan y darparwr cofrestredig yn dangos bod 83% o'r staff yn gyfredol o ran eu hyfforddiant rheoli heintiau ac y byddai'r gweddill yn cwblhau eu hyfforddiant diweddar.

Gwelsom yn gyffredinol trwy gydol yr arolygiad bod yr ysbyty yn amlwg yn lân ac yn rhydd o annibendod. Fodd bynnag, nodwyd gennym yn ystod noson gyntaf yr arolygiad bod y wardiau'n ymddangos braidd yn anniben o'u cymharu ag yn ystod y dydd.

Cadarnhaodd y staff bod amserlenni glanhau ar waith i hybu glanhau rheolaidd ac effeithiol yn yr ysbyty ac roeddent yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau o ran atal a rheoli heintiau. Esboniodd y staff bod dyletswyddau glanhau'r shifft nos yn dechrau ar ôl i fwyafrif y cleifion fynd i'w hystafelloedd gwely yn gyffredinol. Cadarnhaodd y staff domestig i ni siarad â nhw bod hyn yn digwydd yn rheolaidd a oedd yn cadw'r wardiau ar lefel dderbyniol o lendid drwy'r dydd a'r nos.

Yn ystod noson gyntaf ein harolygiad, gwelsom nifer o forgrug mewn ystafell wely nad oedd yn cael ei defnyddio ar Treowen; yn ystod ein sgwrs gyda chleifion ar yr un ward codwyd pryder ganddyn nhw hefyd ynglŷn â gweld morgrug mewn rhannau cymunedol o'r ward. Cadarnhaodd yr uwch reolwyr y cysylltwyd â chontractwr allanol i fynd i'r afael â'r broblem yn dilyn pryderon cleifion dros y penwythnos cyn ein harolygiad; disgwyliwyd i hyn gael ei wneud yn ystod wythnos yr arolygiad.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig gadarnhau bod y pla morgrug wedi cael ei drin.

Maetheg

Canfuwyd gennym fod y cleifion yn cael cynnig dewis o brydau bwy ar fwydlen pedair wythnos. Gwelsom fod y fwydlen yn amrywiol a dywedodd y cleifion wrthym fod gennym ddewis o'r hyn i'w fwyta. Roedd y bwydlenni hefyd yn amrywio o dymor i dymor drwy'r flwyddyn. Roedd yn gadarnhaol nodi bod y cleifion a'r staff yn bwyta prydau bwyd gyda'i gilydd a oedd yn cynnig profiad cymunedol adeiladol.

Yn ogystal â'r prydau a ddarparwyd, roedd y cleifion yn gallu defnyddio'r gegin therapi galwedigaethol i baratoi eu prydau eu hunain ac archebu danfoniadau tecawê i'r ysbyty.

Dywedodd y staff wrthym y darperir ar gyfer cleifion â deietau penodol/arbennig, gan gynnwys figan, heb glwten a gofynion crefyddol. Roedd nifer o gleifion yn yr ysbyty ag anghenion diabetig neu angen deiet meddal. Roedd y Prif Gogydd yn cyfarfod gyda'r cleifion ag anghenion deietegol penodol ac yn trafod pa opsiynau addas oedd ar gael.

Roedd adborth cleifion ar y prydau bwyd a'r opsiynau ar y fwydlen yn cael eu casglu ac roedd hyn yn cynorthwyo i adolygu a llunio'r opsiynau ar gyfer y fwydlen. Nid oedd gan y cleifion i ni siarad â nhw bryderon am y prydau a oedd ar gael.

Roedd ffrwyth ffres ar gael ar bob un o'r wardiau ac roedd y cleifion yn gallu prynu byrbrydau o siop yr ysbyty, yn ystod absenoldeb cymunedol neu fynd i gaffi'r ysbyty.

Roedd peiriannau diodydd poeth ac oer ar bob ward y gallai'r cleifion eu defnyddio i baratoi eu diodydd eu hunain. Defnyddiwyd y cyfleusterau hyn yn

rheolaidd gan y cleifion. Roedd nifer o beiriannau diodydd poeth ac oer cleifion ar rai o'r wardiau yn anniben ac roedd angen eu glanhau, ac roedd problem benodol ar Treowen lle'r oedd marciau diodydd a ollyngwyd ar y wal a'r arwyneb cyfagos o gwmpas y bin gwastraff ar gyfer yr ardal hon.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod glendid y manau o gwmpas peiriannau diodydd poeth ac oer yn cael ei gynnal drwy'r dydd a'r nos.

Rheoli meddyginiaethau

Ar y cyfan, roedd y drefn rheoli meddyginiaethau ar y wardiau yn ddiogel ac effeithiol. Roedd meddyginiaeth yn cael ei storio'n ddiogel ac oergelloedd meddyginiaeth yn cael eu cloi a throlïau meddyginiaeth yn cael eu diogelu. Roedd mewnbwn fferyllol rheolaidd ac archwiliad yn cael ei gynnal a oedd yn cynorthwyo'r gwaith o reoli, rhagnodi a rhoi meddyginiaeth yn yr ysbyty.

Roedd tystiolaeth bod archwiliadau tymheredd rheolaidd o'r oergell feddyginiaeth i sicrhau bod meddyginiaeth yn cael ei storio ar y tymheredd a gynghorir gan y gweithgynhyrddydd.

Roedd trefniadau priodol ar gyfer storio a defnyddio Cyffuriau a Reolir a Chyffuriau Agored i gael eu Camddefnyddio, ac roedd y rhain yn cael eu cyfrifo a'u harchwilio yn feunyddiol. Fodd bynnag, nid oedd y clo ar y cwpwrdd Cyffuriau Agored i gael eu Camddefnyddio ar Treowen yn gweithio ac felly roedd y staff yn diogelu'r meddyginiaethau hyn yn y cwpwrdd cyffuriau a reolir tra'n aros i'r clo diffygiol gael ei drwsio neu ei newid am un newydd.

Fodd bynnag, ar Teilo, gwelsom ar un achlysur y rhoddwyd meddyginiaeth pan wrthododd y claf y feddyginiaeth y cafodd ei gadael yn y pot rhoi meddyginiaeth ar ben y siart Cofnod Rhoi Meddyginiaeth (MAR) ar arwyneb gwaith y clinig. Roedd hwn yn arfer gwael; dylid rhoi meddyginiaeth dim ond pan fydd y claf ar gael a dylid fod wedi cael gwared ar y feddyginiaeth yn briodol yn y sefyllfa hon.

Roedd y Siartiau MAR a adolygwyd yn cynnwys enw'r claf, llun o'r claf a'i statws cyfreithiol o dan y ddeddf iechyd meddwl. Roedd Siartiau MAR yn cael eu llofnodi a'u dyddio yn gyson pan roedd meddyginiaeth yn cael ei rhagnodi a'i rhoi, ac roedd rheswm yn cael ei gofnodi pan nad oedd meddyginiaeth yn cael ei rhoi. Fodd bynnag, nid oedd Siartiau MAR bob amser yn cynnwys copiâu o'r Tystysgrifau Cydsyniad i Driniaeth, ac roedd un nyrs gofrestrdig i ni siarad â hi yn anghyfarwydd â lle y byddent wedi eu lleoli yn ffolder meddyginiaeth unigol

claf. Felly, nid oedd yr holl nyrsys cofrestredig yn cyfeirio at Dystysgrifau Cydsyniad i Driniaeth i gadarnhau bod meddyginiaeth a ragnodwyd (ar gyfer anhwylder meddwl) wedi cael ei awdurdodi o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl.

Roedd yn gadarnhaol nodi bod drws y clinig ar Osborn wedi cael ei addasu yn dilyn ein harolygiad blaenorol fel nad oedd yn agor tuag allan o'r clinig mwyach, ond i mewn. Roedd hyn yn cael gwared ar y posibilrwydd i rywun a oedd yn sefyll y tu allan i'r clinig gael ei anafu pan roedd y drws yn cael ei agor.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau y gellir cloi'r cwpwrdd Cyffuriau Agored i gael eu Camddefnyddio ar Treowen.

Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod unrhyw feddyginiaeth sydd heb ei defnyddio yn cael ei gwaredu yn briodol.

Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod copïau o Dystysgrifau Cydsyniad i Driniaeth yn cael eu cadw yn y Cofnod Rhoi Meddyginiaeth a bod y staff yn cyfeirio at y rhain wrth roi meddyginiaeth.

Diogelu plant a diogelu oedolion agored i niwed

Roedd prosesau sefydledig ar waith i sicrhau bod yr ysbyty yn diogelu oedolion a phlant agored i niwed, gydag atgyfeiriadau i asiantaethau allanol yn ôl y gofyn. Y tîm o weithwyr cymdeithasol oedd yn arwain y prosesau diogelu, y trefniadau cyswllt/ymweliadau plant a chynllunio gofal.

Roedd ymweliadau plant ar gael oddi ar y wardiau mewn ystafell ddynodedig. Pan nad oedd rhieni yn gallu gadael y ward, gallai'r staff hwyluso cyfarfodydd gan ddefnyddio Skype. Roedd staff a oedd yn hwyluso/arsylwi ymweliadau plant wedi cwblhau hyfforddiant ymweliadau plant penodol i sicrhau lles plant sy'n ymweld.

Roedd yr ystadegau hyfforddiant a ddarparwyd gan y darparwr cofrestredig yn dangos bod 93% o staff yn gyfredol o ran eu hyfforddiant e-ddysgu diogelu plant ac oedolion.

Roedd y tîm gweithwyr cymdeithasol yn awyddus i ddarparu hyfforddiant diogelu ystafell ddosbarth ychwanegol a fyddai'n rhoi'r cyfle i'r staff drafod materion ac enghreifftiau diogelu yn fwy manwl na dysgu cyfrifiadurol.

Yr hyn y mae angen ei wella

Dylai'r darparwr cofrestredig archwilio'r posibilrwydd o hwyluso hyfforddiant diogelu ystafell ddsbarth ychwanegol i'r staff yn Llanarth Court.

Dyfeisiau meddygol, offer a systemau diagnostig

Roedd archwiliadau clinigol rheolaidd yn yr ysbyty ac archwilio nosweithiol o offer dadebru, ac roedd y staff wedi cofnodi pryd yr oedd y rhain wedi cael eu cynnal i sicrhau bod yr offer yn bresennol ac mewn dyddiad.

Roedd torwyr rhwymynnau wedi eu lleoli drwy'r ysbyty rhag ofn y byddai argyfwng.

Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Ar y cyfan, canfuwyd gennym fod trefniadau llywodraethu ar waith a oedd yn helpu i sicrhau bod y staff yn darparu gofal diogel a chlinigol effeithiol i gleifion.

Roedd trefniadau llywodraethu clinigol ar gyfer yr ysbyty yn cyfrannu at drefniadau llywodraethu The Priory Group a oedd yn hwyluso proses dwy ffordd o fonitro a dysgu.

Technoleg rheoli gwybodaeth a chyfathrebu

Roedd y systemau cofnodion cleifion cyfrifiadurol yn Llanarth Court wedi eu datblygu'n dda ac yn darparu gwybodaeth o ansawdd uchel ar ofal cleifion unigol. Ymgysylltwyd â'r system 'Nodiadau Gofal' a oedd yn cael ei defnyddio yn gadarnhaol iawn gan staff o bob disgyblaeth.

Roedd dwy system electronig dda ar waith ar gyfer cofnodi digwyddiadau, archwiliadau clinigol a llywodraethu a systemau ysbyty eraill, a oedd yn cynorthwyo i reoli a rhedeg Llanarth Court.

Rheoli cofnodion

Roedd cofnodion cleifion electronig wedi eu diogelu â chyfrinair i atal mynediad heb awdurdod â methiannau i gynnal cyfrinachedd.

Adolygwyd sampl o gofnodion cleifion ar draws y wardiau. Roedd yn amlwg bod staff o'r holl dimau amlddisgyblaeth yn ysgrifennu cofnodion manwl a rheolaidd a oedd yn cynnig dogfen fyw ar y claf a'i ofal.

Roedd y staff yn cwblhau dogfennau fel Cynlluniau Gofal a Thriniaeth ac asesiadau risg yn llawn. Roedd yn gadarnhaol nodi, pan nad oedd maes yn berthnasol i glaf, bod hyn yn cael ei gofnodi yn hytrach na dim ond ei adael yn wag.

Monitro'r Ddeddf Iechyd Meddwl

Adolygwyd dogfennau cadw statudol saith o gleifion ar draws chwe ward, a oedd yn cynnwys Awen, Howell, Osbern, Teilo, Treowen a Woodlands. Adolygwyd y prosesau adolygu a llywodraethu a oedd ar gyfer ar gyfer monitro defnydd o'r Ddeddf Iechyd Meddwl (y Ddeddf) yn Llanarth Court gennym hefyd.

Roedd y saith set o ddogfennau statudol yn cadarnhau bod y cleifion yn cael eu cadw'n gyfreithlon yn Llanarth Court. Fodd bynnag, wrth graffu ar ffeiliau cadw cleifion ac adolygu prosesau yn ymwneud â chyfrifoldebau statudol o dan y Ddeddf a Chod Ymarfer Cymru ar gyfer Deddf Iechyd Meddwl 1983, Diwygiwyd yn 2016 (y Cod), gwelsom hepgoriadau arwyddocaol o ran arfer.

Nodwyd gennym nad oedd meysydd hanfodol o'r Ddeddf yn cael eu cwblhau yn Llanarth Court. Roedd y rhain yn cynnwys:

- Darparu copïau o'u papurau cadw i gleifion, paragraff 4.14
- Cofnodi manylion y ddarpariaeth o hawliau o dan Adran 132, gan gynnwys dealltwriaeth y claf, paragraff 4.19.
- Hysbysu cleifion am gydsyniad i driniaeth, paragraff 4.23
- Cwblhau asesiad galluedd i gydsynio i driniaeth bob amser yn ôl y gofyn, paragraff 24.34
- Nid oedd ffurflenni cydsyniad i driniaeth wedi eu cwblhau'n llawn bob amser, paragraff 25.21
- Ni farciwyd bod tystysgrifau cydsyniad i driniaeth nad ydynt yn awdurdodi triniaeth mwyach wedi eu diddymu, paragraff 25.87
- Defnydd anghywir o dystysgrifau cydsyniad i driniaeth i gofnodi pan nad oedd cleifion yn derbyn meddyginiaeth. Mae Adran 58(3)(a) y Ddeddf yn nodi bod tystysgrifau ar gyfer yr ail-godio ar gyfer triniaeth feddygol ar gyfer anhwylder meddwl i gleifion a gedwir. Ni ddylid eu defnyddio at unrhyw ddiben arall felly.
- Dim craffu meddygol ar bapurau anfon pan fydd cleifion yn cael eu trosglwyddo i Llanarth Court o ysbyty arall, paragraffau 35.12 - 35.13

Pan roedd cleifion wedi cael eu trosglwyddo i Llanarth Court o ysbytai yn Lloegr, nid oedd unrhyw gofnod o:

- Drafodaeth yr ymgynghorai statudol â Meddyg a Benodwyd i Roi Ail Farn, paragraff 25.62
- Penderfyniad y Meddyg a Benodwyd i Roi Ail Farn yn cael ei gyfathrebu i'r claf, paragraff 25.69

Canfu ein harolygiad blaenorol bod diffyg amrywiaeth cefndiroedd ymhlith y Rheolwyr Ysbyty⁴ yn Llanarth Court i adlewyrchu grŵp cleifion yr ysbyty. Er gwaethaf ymdrechion parhaus i recriwtio rheolwyr ysbyty mwy amrywiol, cadarnhaodd yr uwch reolwr y bu hyn yn aflwyddiannus ond y byddant yn parhau gyda'r ymdrech.

Nodwyd gennym wrth adolygu adroddiadau penderfyniadau rheolwyr ysbyty bod diffyg manylder yn y rhain wrth roi'r rheswm/rhesymau am adnewyddu'r penderfyniad i gadw, paragraff 38.42. Nodwyd hefyd mewn un achos i ni ei adolygu nad oedd pob un o dri rheolwr yr ysbyty wedi llofnodi'r penderfyniad.

Nid oedd copïau o'r Cod ar bob un o'r wardiau yn Llanarth Court, yn y Gymraeg na'r Saesneg. Mae'n rhaid gwneud copïau o'r Cod ar gael yn Gymraeg a Saesneg i'r cleifion a'r staff.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau y cynigir copïau o'u papurau cadw i'r cleifion.

Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig gadw cofnod manwl o'r ddarpariaeth o hawliau o dan Adran 132.

Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod cofnod cyflawn o ddarpariaeth Cydsyniad i Driniaeth yn cael ei gynnal, fel y cyfarwyddir gan y Cod.

Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod craffu meddygol ar bapurau

⁴ Y sefydliad (neu'r unigolion) sy'n gyfrifol am weithrediad y Ddeddf mewn ysbyty penodol. Mae gan reolwyr ysbyty wahanol swyddogaethau o dan y Ddeddf, sy'n cynnwys y grym i ryddhau claf.

anfon yn cael ei gyflawni pan fydd cleifion yn cael eu trosglwyddo i Llanarth Court.

Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod yr holl ddogfennau yn ymwneud â'r broses Meddyg a Benodwyd i Roi Ail Farn yn cael eu derbyn pan fydd claf yn cael ei drosglwyddo i Llanarth Court, fel y cyfarwyddir gan y Cod.

Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod adroddiadau penderfyniad rheolwr yr ysbyty yn cynnwys manylder digonol wrth ddarparu'r rheswm/rhesymau am adnewyddu'r penderfyniad i gadw.

Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod holl reolwyr yr ysbyty yn llofnodi adroddiadau penderfyniad.

Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod copïau o God Ymarfer Cymru ar gyfer Deddf Iechyd Meddwl 1983, Diwygiwyd 2016 ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg.

Monitro Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010: Cynllunio a darparu gofal

Adolygwyd cynlluniau cyfanswm o naw o gleifion gennym.

Roedd y Cynlluniau Gofal a Thriniaeth yn adlewyrchu meysydd Mesur Cymru gydag amcanion mesuradwy ac roeddent yn cael eu hadolygu'n rheolaidd. Ar y cyfan, roedd Cynlluniau Gofal a Thriniaeth unigol yn manteisio ar gryfderau claf ac yn canolbwyntio ar wella, adsefydlu ac annibyniaeth. Roedd y cynlluniau gofal yn cynnwys gwaith monitro iechyd corfforol a hybu iechyd da.

Roedd cynlluniau gofal yn cael eu datblygu gydag aelodau'r timau amlddisgyblaeth. I ategu cynlluniau gofal y cleifion, roedd amrywiaeth o asesiadau cleifion i nodi a monitro'r ddarpariaeth o ofal cleifion, ynghyd ag asesiadau risg a oedd yn nodi'r risgiau a nodwyd a sut i'w lliniaru a'u rheoli.

Cadarnhaodd y cleifion eu bod yn cael eu hannog i gymryd rhan yn y gwaith o ddatblygu eu gofal gyda phwyslais ar wella a rhyddhad. Mynychwyd dau adolygiad gofal gennym gyda chaniatâd y cleifion unigol a gwelsom y staff yn cynnal cyfarfod cynhwysol a oedd yn canolbwyntio ar yr unigolyn. Gwelsom y gwrandawyd ar safbwyntiau a dymuniadau'r cleifion a bod y staff yn rhoi rhesymau eglur am benderfyniadau a wnaed.

Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

Gwnaethom ystyried sut mae gwasanaethau'n cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn cefnogi'r ddarpariaeth o ofal diogel ac effeithiol. Gwnaethom hefyd ystyried sut mae gwasanaethau yn adolygu ac yn monitro eu perfformiad eu hunain ochr yn ochr â'r Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol a'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

Gwelsom reolaeth ac arweinyddiaeth dda yn Llanarth Court a oedd yn cael eu cefnogi gan The Priory Group. Gwelsom dîm staff ymroddgar a oedd â dealltwriaeth dda iawn o anghenion y cleifion yn yr ysbyty.

Siaradodd y staff yn gadarnhaol ar y cyfan am weithio yn Llanarth Court ac am weithio tîm aml-ddisgyblaeth cadarnhaol ac agored. Fodd bynnag, dylid rhoi ystyriaeth i'r dulliau ar gyfer dosbarthu gwybodaeth strategaeth a chorfforaethol.

Recriwtiwyd trwy broses agored a theg gydag archwiliadau cyflogaeth priodol yn cael eu cynnal cyn cyflogi ac yn rheolaidd yn ystod cyflogaeth. Roedd y staff yn derbyn hyfforddiant gorfodol rheolaidd, goruchwyliaeth gan reolwyr, gwerthusiadau blynyddol a'r cyfle i gael mynediad at oruchwyliaeth glinigol.

Fframwaith llywodraethu ac atebolrwydd

Canfuwyd gennym fod systemau a phrosesau wedi'u diffinio'n dda ar waith i sicrhau bod yr ysbyty yn canolbwyntio ar wella ei wasanaethau yn barhaus. Gwnaed hyn yn rhannol trwy raglen archwilio barhaus a'i strwythur llywodraethu sefydledig a oedd yn galluogi aelodau staff allweddol/enwebedig i gyfarfod yn rheolaidd i drafod canlyniadau clinigol yn gysylltiedig â'r ddarpariaeth o ofal cleifion. Roedd y trefniadau hynny wedi eu cofnodi fel y gellid eu hadolygu.

Roedd yr ysbyty wedi datblygu Uwch Dîm Rheoli newydd ers ein harolygiad blaenorol. Roedd yr Uwch Dîm Rheoli yn cynnal cyfarfodydd misol i sicrhau trosolwg effeithiol o faterion gweithredol yr ysbyty yng nghyd-destun strwythurau llywodraethu Priory Healthcare.

Roedd yr Uwch Dîm Rheoli yn cynnwys Cyfarwyddwr Ysbyty, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Clinigol, Cyfarwyddwr Meddygol, Rheolwr Gwasanaethau Cymorth, a Phenaethiaid: Seicoleg, Therapi Galwedigaethol a Gwaith Cymdeithasol. Roedd gan yr uwch reolwyr hyn gyfrifoldebau penodol am sicrhau bod y rhaglen lywodraethu yn parhau i fod yn flaenllaw yn y ddarpariaeth o wasanaethau.

Roedd gan bob ward dîm amlddisgyblaeth penodol a oedd yn cynnwys rheolwr ward, dwy brif nyrs, clinigydd cyfrifol, therapydd galwedigaethol a gweithiwr cymorth therapi. Roedd gan y timau amlddisgyblaeth gefnogaeth hefyd gan seicolegwyr, gweithwyr cymdeithasol, therapyddion chwaraeon a thiwtor oedolion yr ysbyty.

Roedd tystiolaeth o sgysiau gyda'r staff, arsylwi cyfarfodydd ac ymgysylltiad timau amlddisgyblaeth, ac adolygu cofnodion cleifion o weithio tîm amlddisgyblaeth cryf yn Llanarth Court. Gwnaeth y staff sylwadau ffafriol ar weithio tîm amlddisgyblaeth gan nodi eu bod yn teimlo bod aelodau staff eraill yn gwrandao ar eu safbwyntiau ac yn eu parchu. Canfuwyd gennym fod y staff wedi ymrwmo i ddarparu gofal cleifion i safonau uchel.

Roedd gan bob disgyblaeth bennaeth adran a oedd yn darparu arweinyddiaeth i'w dîm ac yn cysylltu'n gydweithredol â phenaethiaid adrannau eraill o fewn The Priory Group.

Byddai aelodau staff o Llanarth Court hefyd yn cyfarfod yn rheolaidd â chynrychiolwyr lleol Priory Group a chynrychiolwyr i brif swyddfa i drafod gweithrediadau a chynllunio strategol a oedd yn cael ei rannu'n ôl wedyn gyda'r tîm staff yn Llanarth Court trwy gyfarfodydd rheolaidd. Fodd bynnag, dywedodd rhai aelodau staff ward i ni siarad â nhw nad oeddent bob amser yn teimlo eu bod yn cael eu hysbysu am yr holl wybodaeth strategaeth a chorfforaethol berthnasol.

Siaradodd y staff yn gadarnhaol am yr arweinyddiaeth a'r cymorth a ddarperir gan uwch reolwyr a rheolwyr ward. Roedd yn gadarnhaol nodi o'n sgysiau gyda'r staff eu bod yn dweud bod ysbryd y staff wedi parhau i wella ers ein harolygiad diwethaf wedi ei gynorthwyo gan yr arweinyddiaeth a'r sefydlogrwydd a ddarparwyd gan yr Uwch Dîm Rheoli yn yr ysbyty.

Roedd yn gadarnhaol bod y staff yn Llanarth Court yn croesawu ein safbwyntiau, ein canfyddiadau a'n hargymhellion trwy gydol yr arolygiad.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod yr holl staff yn cael eu hysbysu am yr holl wybodaeth strategaeth a chorfforaethol berthnasol.

Ymdrin â phryderon a rheoli digwyddiadau

Fel y nodwyd yn gynharach yn yr adroddiad, roedd prosesau sefydledig ar waith ar gyfer ymdrin â phryderon a rheoli digwyddiadau yn yr ysbyty.

Roedd yn amlwg bod y darparwr cofrestredig yn monitro pryderon a digwyddiadau yn lleol yn Llanarth Court ac yn gorfforaethol trwy fecanweithiau adrodd rheolaidd.

Cynllunio'r gweithlu, hyfforddiant a datblygiad sefydliadol

Adolygwyd y trefniant staffio yn Llanarth Court gennym a'r hyn a nodwyd ganddynt yn eu Datganiad o Ddiben. Gan fod ward Deri wedi ei chau dros dro, roedd gan yr ysbyty nifer ddigonol o nyrsys cofrestredig wedi eu hail-neilltuo ar draws yr ysbyty i fodloni rotas staff. Fodd bynnag, roedd diffyg cynorthwywyr gofal; gwaethygyd y sefyllfa hon gan fod angen niferoedd staff uwch i gyflawni arsylwadau cleifion estynedig. Byddai'r nifer yr oedd ei hangen yn amrywio ar sail anghenion cleifion unigol yn yr ysbyty.

Pan roedd diffygion o ran llenwi rota, h.y. oherwydd swyddi gwag neu salwch, bydda staff cronfa'r darparwr cofrestredig yn cael ei ddefnyddio; fel arall, byddai'r darparwr cofrestredig yn defnyddio staff asiantaeth i sicrhau bod yr ysbyty wedi ei staffio'n ddigonol. Roedd yn amlwg bod y darparwr cofrestredig yn recriwtio i lenwi swyddi gwag, gan gynnwys nyrs gofrestrdig a chynorthwywyd gofal iechyd, i gyfyngu'r gofyniad i ddefnyddio staff cronfa neu asiantaeth.

Fodd bynnag, canfuwyd gennym nad oedd ysgolion staffio'r ysbyty⁵ yn adlewyrchu'r staffio gofynnol fel y nodir yn eu Datganiad o Ddiben diweddar. Byddai pob ward ac eithrio Woodlands yn arwain at staffio annigonol (o gyfeirio at eu Datganiad o Ddiben) pe bai nifer y cleifion yn gostwng a'r ysgolion staffio yn cael eu dilyn. Roedd nifer y cleifion ar bob ward ar adeg yr arolygiad yn golygu bod y staffio gofynnol (yn unol â'u hysgol staffio) yn adlewyrchu 'r staffio gofynnol yn y Datganiad o Ddiben. Roedd Cyfarwyddwr yr Ysbyty yn y ymwybodol o'r anghysondeb a chadarnhaodd na fyddai'n staffio'r wardiau yn is na niferoedd gofynnol y Datganiad o Ddiben ac y byddai'n adolygu'r ysgolion staffio.

Roedd staff yn Llanarth Court yn derbyn goruchwyliaeth reolaidd gan y rheolwyr a gwerthusiadau blynyddol. Adolygwyd yr ystadegau hyfforddiant gorfodol ar gyfer staff yn Llanarth Court a chanfuwyd gennym fod cyfraddau cwblhau yn uchel iawn. Roedd y system electronig yn darparu manylion cydymffurfiad adrannol a staff unigol o reolwyr yr ysbyty.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod ysgolion staffio'r ysbyty yn adlewyrchu'r staffio gofynnol fel y'i nodir yn eu Datganiad o Ddiben.

Arferion recriwtio a chyflogi'r gweithlu

Roedd prosesau recriwtio Priory sefydledig ar waith yn Llanarth Court. Mae'r rhain yn sicrhau bod y drefn recriwtio yn dilyn proses agored a theg. Cyn cyflogi, roedd tystlythyrau'r staff yn cael eu derbyn, archwiliadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn cael eu cynnal a chymwysterau proffesiynol yn cael eu gwirio.

Roedd archwiliadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn cael eu cwblhau ar ôl pob cyfnod tair blynedd o gyflogaeth a chofrestriad proffesiynol yn cael ei fonitro.

⁵ Mae ysgolion staffio yn nodi'r nifer ofynnol o staff sydd ei hangen i ddarparu gofal ar gyfer nifer y cleifion ar y ward. Mae'r rhain yn nodi nifer y nyrsys cofrestredig a chynorthwyr gofal iechyd sydd eu hangen fesul shift.

4. Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad, sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau, maent wedi'u nodi yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle bo'n berthnasol):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon ynghylch diogelwch cleifion a gafodd eu huwchgwyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn nodi bod angen i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella yn ein hysbysu o'r camau y maent yn eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Pan fyddwn yn nodi unrhyw ddiffyg cydymffurfio a phryderon difrifol am ddiogelwch a llesiant cleifion sy'n defnyddio'r gwasanaeth, bydd darparwr cofrestredig y gwasanaeth yn cael ei hysbysu trwy [hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio](#). Mae cyflwyno hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio yn fater difrifol a dyma'r cam cyntaf mewn proses a allai arwain at achos sifil neu droseddol.

Dylai'r cynlluniau gwella:

- Ddatgan yn eglur pryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn cael sylw, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion i sicrhau AGIC a'r cyhoedd y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn cael sylw digonol.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth:

- Sicrhau nad yw canfyddiadau'n systemig ar draws adrannau eraill o fewn y sefydliad ehangach
- Pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC, i gadarnhau pan fydd y rhain wedi cael sylw.

Pan gytunir ar y cynllun gwella, caiff ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

5. Sut rydym yn arolygu gwasanaethau iechyd meddwl annibynnol

Mae ein harolygiadau o wasanaethau iechyd meddwl annibynnol yn ddirybudd fel rheol. Byddwn bob amser yn ceisio cynnal arolygiadau dirybudd gan fod hyn yn ein galluogi i weld gwasanaethau yn y ffordd y maent yn gweithredu fel rheol. Nid yw'r gwasanaeth yn derbyn unrhyw rybudd ymlaen llaw o arolygiad dirybudd.

Caiff adborth ei wneud ar gael i gynrychiolwyr y gwasanaeth ar ddiwedd pob arolygiad, mewn ffordd sy'n cynorthwyo dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefelau gweithredol a strategol.

Bydd arolygiadau AGIC o wasanaethau iechyd meddwl annibynnol yn ystyried sut y mae gwasanaethau:

- Yn cydymffurfio â [Deddf Iechyd Meddwl 1983](#), [Deddf Galluedd Meddyliol 2005](#) a gweithrediad Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid
- Yn cydymffurfio â [Deddf Safonau Gofal 2000](#)
- Yn cydymffurfio â [Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol \(Cymru\) 2011](#)
- Yn bodloni'r [Safonau Gofynnol Cenedlaethol](#) ar gyfer Gwasanaethau Gofal Iechyd Annibynnol yng Nghymru.

Rydym hefyd yn ystyried safonau a chanllawiau proffesiynol eraill fel sy'n berthnasol.

Mae'r arolygiadau hyn yn cynnig cipolwg ar y safonau gofal mewn gwasanaethau iechyd meddwl annibynnol.

Ceir rhagor o fanylion am sut y mae AGIC yn arolygu [gwasanaethau iechyd meddwl](#) ac [annibynnol](#) ar ein gwefan.

Atodiad A – Crynodeb o bryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a gafodd eu huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y claf	Sut y gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut y cafodd y pryder ei ddatrys
Ni nodwyd unrhyw bryderon uniongyrchol yn yr arolygiad hwn	Amherthnasol	Amherthnasol	Amherthnasol

Atodiad B – Cynllun Gwella

Gwasanaeth: Llanarth Court

Dyddiad yr arolygiad: 21 - 24 Mai 2018

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn nodi bod angen i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella yn ein hysbysu o'r camau y maent yn eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Yr hyn y mae angen ei wella	Rheoliad/ Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ansawdd profiad y claf				
Dylai'r darparwr cofrestredig sicrhau'r ddarpariaeth o fynediad at y rhyngwyd ar y wardiau yn seiliedig ar asesiad risg ar gyfer cleifion unigol.	3. Hybu, diogelu a gwella iechyd	Mae rhwydwaith defnyddwyr gwasanaeth yn weithredol yn yr ysbyty. Bwriad i'w gyflwyno i'r cleifion ei ddefnyddio ar y wardiau	Rheolwr Cymorth Gwasanaeth	Hydref 2018
Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau nad yw'r cleifion yn rhoi lliainiau dros baneli arsylwi drysau ystafelloedd gwely.	10. Urddas a pharch	Cwblhawyd		Cwblhawyd
Dylai'r darparwr cofrestredig adolygu trefn pedair ward Deri, Iddon, Howell ac Osbern yn y dyfodol i sicrhau y bydd amgylcheddau'r wardiau yn parhau i adlewyrchu safonau	10. Urddas a pharch	Cynllun Busnes 3 blynedd i gael ei gwblhau a'i anfon i'r Adran Ystadau ar gyfer cymeradwyaeth	Rheolwr Cymorth Gwasanaeth	Medi 2018

Yr hyn y mae angen ei wella	Rheoliad/ Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
darpariaeth cleifion mewnol y dyfodol. Hefyd, cael gwared ar y gofyniad i gleifion gael eu lleoli ar lefelau penodol o'r wardiau yn ystod y dydd.				
Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig archwilio pryderon y cleifion a'r staff i sicrhau nad yw cleifion yn teimlo'n anniogel neu o dan fygythiad gan grwpiau eraill o gleifion.	10. Urddas a pharch	Bydd eitem agenda yn y cyfarfod cleifion yn cael ei gyflwyno a chamau a gymerir o gyfarfodydd yn cael eu rhannu mewn cyfarfodydd CG	Rheolwyr Ward	Awst 2018
Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod gwybodaeth wedi ei harddangos ar bob ward sy'n cynnwys gwybodaeth statudol, gwybodaeth am y Ddeddf Iechyd Meddwl a'r ddarpariaeth o eiriolaeth, sut i wneud cwyn a gwybodaeth am Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru.	9. Gwybodaeth a chydysyniad cleifion	Bydd yr hysbysfyrddau ar y wardiau yn cael eu safoni i ddangos yr holl wybodaeth statudol sy'n ofynnol	Cyfarwyddwr Gwasanaeth Clinigol	Awst 2018
Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod y cleifion a'r staff yn ymwybodol o'r newidiadau i'r ddarpariaeth eirioli yn Llanarth Court.	9. Gwybodaeth a chydysyniad cleifion	Bydd manylion Eiriolaeth De Cymru yn cael eu harddangos ar y wardiau. Bydd y cleifion yn cael eu hysbysu yn y cyngor cleifion. Bydd y staff yn cael eu hysbysu trwy e-bost gan HD	Cyfarwyddwr Gwasanaeth Clinigol	Awst 2018
Dylai'r darparwr cofrestredig archwilio opsiynau ar gyfer hysbysu'r cleifion am adborth a chamau gweithredu o gyfarfodydd y gymuned cleifion.	18. Cyfathrebu'n effeithiol	Diweddarwyd agenda cyfarfodydd cleifion cyfredol i sicrhau bod adborth a chamau gweithredu yn cael eu	Rheolwyr Ward	Cwblhawyd

Yr hyn y mae angen ei wella	Rheoliad/ Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		cyfathrebu		
Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol				
Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau y darperir larymau personol i'r holl ymwelwyr â'r wardiau a'r holl staff i sicrhau eu diogelwch.	22. Rheoli risg ac iechyd a diogelwch	Gwell arwyddion ar y wardiau i ymwelwyr. Cynhelir archwiliadau beunyddiol fel mater o drefn. Archebwyd 15 larwm i sicrhau bod larymau ar gael	Cyfarwyddwr Gwasanaeth Clinigol	Awst 2018
Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod rhaglen ailaddurno, ailwampio a chynnal a chadw'r ysbyty yn cadw'r safle mewn cyflwr da y tu mewn a'r tu allan.	22. Rheoli risg ac iechyd a diogelwch 12. Yr Amgylchedd	Mae'r cynllun ailwampio cyfredol wedi cael ei adolygu a'i ddiweddarau	Rheolwr Cymorth Gwasanaeth Priory	Gorffennaf 2018
Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig adolygu ei bolisi ar ddefnyddio teledu cylch cyfyng i sicrhau ei fod yn dilyn canllawiau Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth a nodir yn eu Cod Ymarfer ar Deledu Cylch Cyfyng 2017.	22. Rheoli risg ac iechyd a diogelwch 12. Yr Amgylchedd	Gweithdrefn leol i gael ei hadolygu yn erbyn y Cod Ymarfer.	Cyfarwyddwr yr Ysbyty	Awst 2018
Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig gadarnhau	13. Atal a rheoli heintiau a	Gwnaed trefniadau	Cwmni Rheoli	Cwblhawyd

Yr hyn y mae angen ei wella	Rheoliad/ Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
bod y pla morgrug wedi cael ei drin.	dadheintio 12. Yr Amgylchedd		Plâu Mitee	Mai 2018
Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod glendid y manau o gwmpas peiriannau diodydd poeth ac oer yn cael ei gynnal drwy'r dydd a'r nos.	14. Maetheg 12. Yr Amgylchedd	Mae cyfrifoldeb am lendid wedi cael ei gyfathrebu i staff y wardiau a bydd archwiliadau mater o drefn yn cael eu cynnal.	Rheolwyr Ward	Gorffennaf 2018
Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau y gellir cloi'r cwpwrdd Cyffuriau Agored i gael eu Camddefnyddio ar Treowen.	15. Rheoli meddyginiaethau	Gosodwyd cwpwrdd newydd		Cwblhawyd
Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod unrhyw feddyginiaeth sydd heb ei defnyddio yn cael ei gwaredu yn briodol.	15. Rheoli meddyginiaethau	Bydd cymhwysedd newydd ym maes rheoli meddyginiaethau yn cael ei gyflwyno. Bydd y polisi yn cael ei arddangos mewn swyddfeydd a chlinigau.	Rheolwyr Ward	Awst 2018
Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod copïau o Dystysgrifau Cydsyniad i Driniaeth yn cael eu cadw yn y Cofnod Rhoi Meddyginiaeth a bod y staff yn cyfeirio at y rhain wrth roi meddyginiaeth.	15. Rheoli meddyginiaethau	Cynhelir archwiliadau clinig yn wythnosol	Rheolwyr Ward	Awst 2018

Yr hyn y mae angen ei wella	Rheoliad/ Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Dylai'r darparwr cofrestredig archwilio'r posibilrwydd o hwyluso hyfforddiant diogelu ystafell ddosbarth ychwanegol i'r staff yn Llanarth Court.	11. Diogelu plant a diogelu oedolion agored i niwed	Trefnwyd dyddiadau ar gyfer y dyfodol tan ddiwedd y flwyddyn. Hyfforddwyd hwyluswyr ychwanegol.		Cwblhawyd
Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau y cynigir copïau o'u papurau cadw i'r cleifion.	Monitro'r Ddeddf lechyd Meddwl	Cynigiwyd copïau i'r holl gleifion ac maent hefyd wedi eu cynnwys yn rhan o becyn adroddiadau adnewyddu'r cleifion.	Gweinyddwr Deddf lechyd Meddwl	Cwblhawyd
Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig gadw cofnod manwl o'r ddarpariaeth o hawliau o dan Adran 132.	Monitro'r Ddeddf lechyd Meddwl	Cofnodwyd yr holl hawliau Adran 132 ar gofnodion cleifion electronig ac fe'u hadolygwyd yn rhan o'r Dangosfyrddau Cyfrifoldeb	Gweinyddwr Deddf lechyd Meddwl	Cwblhawyd
Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod cofnod cyflawn o ddarpariaeth Cydsyniad i Driniaeth yn cael ei gynnal, fel y cyfarwyddir gan y Cod.	Monitro'r Ddeddf lechyd Meddwl	Cedwir cofnod cyflawn o gydsyniad ac fe'i hadolygir gyda'r Fferyllydd a'r RC yn wythnosol	Gweinyddwr Deddf lechyd Meddwl	Cwblhawyd
Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod craffu meddygol ar bapurau anfon yn cael ei gyflawni pan fydd cleifion yn cael eu trosglwyddo i Llanarth Court.	Monitro'r Ddeddf lechyd Meddwl	Caiff yr holl gofnodion cleifion eu hadolygu cyn derbyn, ac mae craffu wedi ei gynnwys yn y Rhestr Wirio Derbyn	Gweinyddwr Deddf lechyd Meddwl	Cwblhawyd

Yr hyn y mae angen ei wella	Rheoliad/ Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod yr holl ddogfennau yn ymwneud â'r broses Meddyg a Benodwyd i Roi Ail Farn yn cael eu derbyn pan fydd claf yn cael ei drosglwyddo i Llanarth Court, fel y cyfarwyddir gan y Cod.	Monitro'r Ddeddf lechyd Meddwl	Gofynnir am yr holl ddogfennau cyn i dderbyniad newydd drosglwyddo i Llanarth Court, i gael eu hadolygu.	Gweinyddwr Deddf lechyd Meddwl	Cwblhawyd
Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod adroddiadau penderfyniad rheolwr yr ysbyty yn cynnwys manylder digonol wrth ddarparu'r rheswm/rhesymau am adnewyddu'r penderfyniad i gadw.	Monitro'r Ddeddf lechyd Meddwl	Adolygiad o Benderfyniadau cyfredol gan y Ddeddf lechyd Meddwl, a thrafodaeth ac adolygiad yn niwrnod hyfforddiant y Ddeddf lechyd Meddwl	Gweinyddwr Deddf lechyd Meddwl	Hydref 2018
Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod holl reolwyr yr ysbyty yn llofnodi adroddiadau penderfyniad.	Monitro'r Ddeddf lechyd Meddwl	Nodwyd y cofnod a datryswyd yr hepgoriad, bydd yn cael ei ychwanegu at restr wirio'r cadeirydd ar gyfer gwrandawiadau hefyd	Gweinyddwr Deddf lechyd Meddwl	Cwblhawyd
Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod copïau o God Ymarfer Cymru ar gyfer Deddf lechyd Meddwl 1983, Diwygiwyd 2016 ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg.	Monitro'r Ddeddf lechyd Meddwl	Cyflwynwyd copïau newydd o'r Cod Ymarfer Diwygiedig i'r holl wardiau, yn y Gymraeg a'r Saesneg.	Gweinyddwr Deddf lechyd Meddwl	Cwblhawyd

Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

Yr hyn y mae angen ei wella	Rheoliad/ Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod yr holl staff yn cael eu hysbysu am yr holl wybodaeth strategaeth a chorfforaethol berthnasol.	1 Fframwaith llywodraethu ac atebolrwydd	Crynodebau cyfarfodydd Uwch Dîm Reoli misol i gael eu rhannu gyda'r holl staff a diweddariadau cyfathrebu rheolaidd. Caiff diweddariadau wythnosol y Prif Swyddog Gweithredol eu rhannu gyda'r holl ddefnyddwyr.	Cyfarwyddwr yr Ysbyty	Ar unwaith
Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod ysgolion staffio'r ysbyty yn adlewyrchu'r staffio gofynnol fel y'i nodir yn eu Datganiad o Ddiben.	25. Cynllunio'r gweithlu, hyfforddiant a datblygiad sefydliadol	Cadarnhau y bydd y Datganiad o Ddiben yn adlewyrchu ysgolion staffio	Cyfarwyddwr yr Ysbyty	Ar unwaith

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd o'r gwasanaeth sydd ag atebolrwydd a chyfrifoldeb cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella'n cael ei weithredu.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (llythrennau bras): Ross Morris

Swydd: Cyfarwyddwr Ysbyty

Dyddiad: 12 Gorffennaf 2018